



Briffiadau Addysg NFER

Cipolygon allweddol o PISA 2018
ar gyfer y Deyrnas Unedig

Beth yw PISA?

Mae'r Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr (PISA) yn brosiect ymchwil byd-eang pwysig sy'n cynnwys ysgolion a disgyblion mewn dros 79 o wledydd ac economïau. Caiff ei gynnal gan OECD ac mae'n digwydd bob tair blynedd.

Mae PISA wedi'i gynllunio i archwilio sut y gall pobl ifanc 15 oed gymhwyso'r hyn y maen nhw wedi'i ddysgu yn yr ysgol mewn sefyllfaoedd go iawn. Gofynnir i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau rhesymu, dehongli a datrys problemau yn hytrach na chofio ffeithiau yn unig.

Mae i bob cylch PISA ffocws gwahanol. Prif ffocws PISA 2018 oedd darllen, ond roedd hefyd yn cynnwys cwestiynau ar fathemateg a gwyddoniaeth¹. Mae PISA hefyd yn casglu gwybodaeth gefndir helaeth am amgylcheddau a phrofiadau dysgu disgyblion gartref ac yn yr ysgol. Gall y wybodaeth hon roi cipolygon pwerus ar ba mor dda mae systemau addysg yn gweithredu, a sut i wella addysgu a dysgu i ddisgyblion yn y Deyrnas Unedig ac o gwmpas y byd.

Pwy yw NFER?

Mae cysylltiad annatod rhwng bywyd plant a phobl ifanc ledled y byd a faint o addysg a gânt, a'i safon. Yn NFER, ein cenhadaeth yw gwella deilliannau i genedlaethau'r dyfodol ym mhobman a chefnogi newidiadau cadarnhaol ar draws systemau addysg.

Gwnawn hyn drwy:

- greu a rhannu tystiolaeth o ymchwil a chipolygon ar bolisi ac ymarfer addysg
- hysbysu llunwyr polisïau ac eraill sy'n penderfynu ar faterion allweddol
- cynnig cipolygon, adnoddau a chymorth i gryfhau ymarfer yn yr ystafell ddosbarth.

Mae cael effaith gadarnhaol ar brofiad plant a phobl ifanc o fyd addysg, ar eu deilliannau, ac ar ddysgu ac addysgu yn ganolog i bopeth a wnawn.

Beth all PISA ddweud wrthym am ddarllen, mathemateg a gwyddoniaeth yn y DU?

Mae PISA wedi'i gynllunio i asesu medrau darllen, mathemateg a gwyddoniaeth disgyblion.

Mae'n caniatáu i ni gymharu â nifer fawr o wledydd eraill o bob cwr o'r byd ac, yn bwysicach, monitro addysg yn ein gwledydd ein hunain dros amser a hynny mewn cyd-destun byd-eang.

Mae PISA yn darparu gwybodaeth i gefnogi gwelliannau i systemau addysg yn fyd-eang ac mae pob un o 4 cenedl y DU yn cymryd rhan.



Ym mwyafrif y gwledydd a gymerodd ran yn PISA, roedd disgyblion yr ystyrient eu hunain yn gystadleuol wedi sgorio'n uwch mewn darllen na disgyblion yr ystyrient eu hunain yn llai cystadleuol (OECD, 2019).



Mynegodd disgyblion yn holl wledydd y DU raddau uchel o beidio â chymeradwyo bwlio (Sizmur et al, 2019).

Yn ôl canlyniadau PISA 2018 yn rhyngwladol, y mwyaf o agweddau gwrth-fwlio oedd i'w gweld yn ei ysgol, y lleiaf tebygol yr oedd disgybl o gael ei fwlio (OECD, 2019).

¹ Atebodd rhai disgyblion yn yr Alban gwestiynau ar gymhwysedd byd-eang hefyd.

Dehongli'r canlyniadau

Mae'n bwysig bod canlyniadau PISA yn cael eu dehongli'n briodol, gan y gall golwg gor-sympl ohonynt fod yn gamarweiniol. Felly, dylid cadw'r pwyntiau canlynol mewn cof.

Cymariaethau rhwng gwledydd

Yn hytrach na chanolbwyntio ar safleoedd gwledydd, mae'n bwysicach gwybod a yw gwledydd yn debyg neu'n wahanol yn ystadegol. Er enghraifft, gall sgôr gwlad mewn pwnc penodol fod wedi gwella, ond mae ei safle wedi disgyn oherwydd bod perfformiad gwledydd eraill wedi gwella, neu oherwydd y gymysgedd o wledydd sy'n cymryd rhan mewn unrhyw gylch penodol.

Newidiadau dros amser

Nid yw cynnydd neu ostyngiad mewn sgôr o un cylch i'r nesaf o reidrwydd yn dangos bod cyflawniad cenedlaethol wedi gwella neu ddirywio. Mae'n hanfodol ystyried a yw sgôr yn ystadegol wahanol i sgoriau blaenorol ac nad yw newidiadau wedi digwydd ar hap yn unig. At hynny, ni all newid mewn sgoriau o reidrwydd gael ei briodoli'n uniongyrchol i bolisiau addysg cenedlaethol, oherwydd gall gymryd nifer o flynyddoedd i ddeall y darlun llawn. Mae angen dadansoddi pellach yn aml i ymchwilio ymhellach i brif benawdau cychwynnol.

Amrywiadau yng nghyflawniad disgyblion

Nid yw sgôr gyfartalog syml yn rhoi darlun cyflawn o wlad benodol. Am y rheswm hwn hefyd, mae PISA yn edrych ar amrediad y cyflawniad gan ddisgyblion o fewn gwledydd. Mae'n archwilio'r gwahaniaethau rhwng y sgoriau uchaf ac isaf, a chyfrannau'r disgyblion sy'n gweithio ar feincnodau rhyngwladol uchel, canolig ac isel, a elwir yn lefelau hyfedredd. Er enghraifft, gallai dwy wlad gael yr un sgôr gymedrig yn gyffredinol, ond gallai holl ddisgyblion un wlad ddangos perfformiad 'cyfartalog' tebyg, tra bydd cyfrannau uchel o ddisgyblion yn y wlad arall yn cyflawni sgoriau uchel iawn, ond bydd cyfrannau uchel iawn hefyd â sgoriau isel iawn, efallai heb hyd yn oed gyrraedd lefelau hyfedredd sylfaenol. Byddai hyn yn awgrymu llai o gyfartalwch ar draws disgyblion. Gellir defnyddio'r math hwn o dystiolaeth i amlygu grwpiau penodol o ddisgyblion y gellir targedu adnoddau yn fwyaf effeithiol atynt.

Cymariaethau ag arholiadau cenedlaethol

Nid yw asesiadau PISA wedi'u seilio ar gwricwlwm a defnyddiant ddulliau sy'n wahanol i arholiadau cenedlaethol, gan fod eu nodau a'u hallbynnau yn wahanol. Mae PISA wedi'i gynllunio i edrych ar berfformiad systemau addysg, nid disgyblion unigol. Dylid dehongli cymariaethau ag arholiadau cenedlaethol gyda chryn ofal.

Polisi addysg

Mae PISA yn darparu gwybodaeth fanwl am systemau addysg, ysgolion a disgyblion. Mae'n archwilio'r berthynas rhwng ffactorau cefndir cyd-destunol a chyflawniad disgyblion. Gall y wybodaeth hon helpu gwledydd i wneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth, gan ddefnyddio canlyniadau PISA ochr yn ochr â ffynonellau tystiolaeth eraill i ddatblygu ac addasu polisi addysg.




Sut mae'r canlyniadau'n cymharu ar draws y DU?

- Lloegr
- Gogledd Iwerddon
- Yr Alban
- Cymru

Darllen oedd prif ffocws astudiaeth PISA yr OECD yn 2018.

Mae PISA yn meddwl am ddarllen fel set eang o gymhwyseddau sy'n galluogi darllenwyr i ymhél â gwybodaeth ysgrifenedig, wedi'i chyflwyno mewn un testun neu fwy, at ddiben penodol.


Sgoriau darllen




Cyflawnodd disgyblion yn **Lloegr**, **yr Alban** a **Gogledd Iwerddon** sgoriau arwyddocaol uwch na'r sgôr gyfartalog ar draws yr OECD. Roedd y sgôr gyfartalog yng **Nghymru** yn debyg i **gyfartaledd yr OECD** ond yn arwyddocaol is na Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Bwlch rhwng cyflawniad mewn darllen

Mae PISA yn dangos rhywfaint o amrywiaeth ym maint y bwlch rhwng cyflawniad mewn gwledydd gwahanol. Mewn darllen, roedd y bwlch rhwng y rhai uchaf ac isaf eu cyflawniad ar ei fwyaf yn **Lloegr** ac ar ei leiaf yn **yr Alban**.




Cyfrannau perfformwyr isel ac uchel mewn darllen



Tueddiadau mewn darllen dros amser

Mae darllen yn **yr Alban** wedi gwella'n arwyddocaol er PISA 2015 tra bod y duedd yn sefydlog mewn rhannau eraill o'r DU.



*Roedd sgôr gymedrig y flwyddyn honno yn ystadegol wahanol i'r sgôr gymedrig yn 2018.


Perfformwyr isaf: Islaw Lefel 2, sef hyfedredd sylfaenol, yn ôl diffiniad yr OECD.

Perfformwyr uchaf: Ystyrir mai disgyblion sy'n cyrraedd lefelau 5 a 6 mewn darllen yw'r 'perfformwyr uchaf' yn y cyddestun byd-eang.

Lloegr oedd â'r gyfran uchaf o ddisgyblion â sgoriau uchel (arwyddocaol uwch na chyfartaledd yr OECD). **Yr Alban** oedd â'r gyfran leiaf o ddisgyblion yn gweithio ar y lefelau isaf (islaw hyfedredd sylfaenol).

Diffinir gwyddoniaeth yn PISA 2018 gan dri chymhwysedd, sef esbonio ffenomenau yn wyddonol; gwerthuso a dylunio ymholiad gwyddonol; a dehongli data a thystiolaeth yn wyddonol.


Sgoriau gwyddoniaeth




Sgoriodd disgyblion yn **Lloegr** yn arwyddocaol uwch na gwledydd eraill y DU a chyfartaledd yr OECD ar gyfer gwyddoniaeth. Roedd sgoriau disgyblion yng **Ngogledd Iwerddon, yr Alban** a **Cymru** yn ystadegol debyg i'w gilydd ac i gyfartaledd yr OECD.

Bwlch rhwng cyflawniad mewn gwyddoniaeth

Mewn gwyddoniaeth, roedd y bwlch rhwng y cyflawnwyr uchaf ac isaf ar ei fwyaf yn **Lloegr** ac ar ei leiaf yng **Nghymru**.




Cyfrannau perfformwyr isel ac uchel mewn gwyddoniaeth



Tueddiadau mewn gwyddoniaeth dros amser

Mae'r duedd mewn gwyddoniaeth ar i lawr yn **yr Alban, Cymru** a **Gogledd Iwerddon** tra bod **Lloegr** wedi aros yn sefydlog.



*Roedd sgôr gymedrig y flwyddyn honno yn ystadegol wahanol i'r sgôr gymedrig yn 2018.

Perfformwyr isaf: Islaw Lefel 2, sef hyfedredd sylfaenol, yn ôl diffiniad yr OECD


Perfformwyr uchaf: Ystyrir mai disgyblion sy'n cyrraedd lefelau 5 a 6 mewn gwyddoniaeth yw'r 'perfformiwyd uchaf' yn y cyd-destun byd-eang.

Lloegr oedd â chyfran uchaf y disgyblion â sgoriau uchel (arwyddocaol uwch na'r OECD). Roedd gan **Gymru** gyfran arwyddocaol lai o ddisgyblion uchel eu cyflawniad nag ar draws yr OECD. Hefyd, **Lloegr** oedd â chyfran leiaf y disgyblion â sgoriau isel (arwyddocaol is na'r OECD) tra'r oedd gwledydd eraill y DU yn debyg i gyfartaledd yr OECD.

Mae'r diffiniad o lythrennedd mathemategol a ddefnyddir yn PISA 2018 yn disgrifio galluoedd unigolion i resymu'n fathemategol a defnyddio cysyniadau, gweithdrefnau, ffeithiau ac offer mathemategol i ddisgrifio, esbonio a rhagfynegi ffenomenau.


Sgoriau mathemateg

Gwelwyd y cyrhaeddiad uchaf ar gyfer mathemateg yn **Lloegr**, lle'r oedd sgoriau'n arwyddocaol uwch nag yng ngwledydd eraill y DU ac yn uwch na chyfartaledd yr OECD. Nid oedd **Yr Alban**, **Cymru** a **Gogledd Iwerddon** yn arwyddocaol wahanol i'w gilydd nac i gyfartaledd yr OECD.




Bwlch rhwng cyflawniad mewn mathemateg

Mewn mathemateg, roedd y bwlch rhwng y cyflawnwyr uchaf ac isaf ar ei fwyaf yn **yr Alban** ac ar ei leiaf yng **Nghymru**.




Tueddiadau mewn mathemateg dros amser

Mae **Cymru** a **Lloegr** wedi gwella eu sgôr mathemateg dros amser, mae'r **Alban** wedi dirywio ac mae **Gogledd Iwerddon** wedi parhau'n sefydlog.



*Roedd sgôr gymedrig y flwyddyn honno yn ystadegol wahanol i'r sgôr gymedrig yn 2018.

Cyfrannau perfformwyr isel ac uchel mewn mathemateg



Perfformwyr isaf: Islaw Lefel 2 sef hyfedredd sylfaenol, yn ôl diffiniad yr OECD.

Perfformwyr uchaf: Ystyrir mai disgyblion sy'n cyrraedd lefelau 5 a 6 mewn mathemateg yw'r 'perfformiwyd uchaf' yn y cydestun byd-eang.

Lloegr oedd â'r gyfran uchaf o ddisgyblion â sgoriau uchel (arwyddocaol uwch na'r OECD). Roedd gan **Gogledd Iwerddon** a **Cymru** gyfran arwyddocaol lai o ddisgyblion uchel eu cyflawniad nag ar draws yr OECD. (Roedd yr Alban yn debyg i gyfartaledd yr OECD.)

Yr Alban oedd â'r gyfran fwyaf o ddisgyblion â sgoriau isel (yn debyg i'r OECD) tra'r oedd gan gwledydd eraill y DU gyfrannau arwyddocaol is yn gweithio ar y lefelau is mewn mathemateg na'r **Alban** a'r OECD.

Sut mae'r canlyniadau'n cymharu ar draws y DU?

Cefndir economaidd-gymdeithasol

Ar gyfartaledd, mae gan ddisgyblion yn y DU statws economaidd-gymdeithasol uwch na'r cyfartaledd ar draws yr OECD, yn ôl mynegai statws economaidd, cymdeithasol a diwylliannol (ESCS). Amcangyfrifir ESCS ar sail eiddo'r cartref a galwedigaeth ac addysg rhieni.


Er gwaethaf anfantais economaidd-gymdeithasol, mae rhai disgyblion yn cyflawni lefelau uchel o hyfedredd academaidd. Ar gyfartaledd ar draws gwledydd yr OECD, roedd sgôr un o bob deg disgybl o dan anfantais yn chwarter uchaf y perfformiad mewn darllen yn eu gwlad (gelwir hyn yn wydnwch academaidd), gan awgrymu nad yw anfantais yn anochel. (OECD 2019)

Perfformiad gwledydd y DU ac OECD mewn darllen yn ôl chwarter ESCS

Mae'r bwlch rhwng y disgyblion mwyaf a lleiaf difreintiedig yn llai yn **yr Alban**, **Cymru** a **Gogledd Iwerddon** nag ar draws yr OECD, sy'n awgrymu bod disgyblion yn y gwledydd hyn yn gallu goresgyn effeithiau cefndir economaidd-gymdeithasol yn well.*

Roedd y bwlch ar ei leiaf yng **Nghymru**, ond roedd gan ei disgyblion mwy breintiedig sgoriau is na gwledydd eraill hefyd.

Sgoriodd disgyblion mwy breintiedig yn uwch mewn darllen na'u cyfoedion llai breintiedig, ac roedd hyn yn wir ar gyfer pob chwarter.



*Nid oedd y bwlch rhwng y disgyblion mwyaf a'r lleiaf difreintiedig yn Lloegr yn arwyddocaol wahanol i gyfartaledd cyffredinol yr OECD.



Ar gyfartaledd ar draws gwledydd yr OECD, dywed 23% o ddisgyblion eu bod yn cael eu bwlio o leiaf ychydig o weithiau'r mis.

Er na wnaeth PISA 2018 fesur seiberfwlio yn uniongyrchol, darganfuwyd yn rhyngwladol mai'r disgyblion yn y categori 'defnyddwyr trwm y rhyngwyd' oedd yn cael eu bwlio amlaf, o gymharu â defnyddwyr 'cymedrol' neu 'gyfartalog'. (OECD 2019)

RHYWEDD



Yn holl wledydd y DU, perfformiodd merched yn well o lawer na bechgyn mewn darllen, fel ar draws yr OECD.

Mewn gwyddoniaeth, perfformiodd merched yn well o lawer na bechgyn yng Ngogledd Iwerddon ond nid oedd unrhyw wahaniaethau arwyddocaol rhwng y rhywiau yn Lloegr, Cymru na'r Alban.

Mewn mathemateg, perfformiodd bechgyn yn well o lawer na merched yn Lloegr a'r Alban, ond nid oedd unrhyw wahaniaethau arwyddocaol rhwng y rhywiau yng Nghymru na Gogledd Iwerddon.



Ym mhob gwlad ac economi, roedd merched yn mwynhau darllen llawer yn fwy na bechgyn. (OECD 2019)

ARFERION DARLLEN



Roedd disgyblion yn Lloegr a Chymru yn tueddu i fod yn fwy hyderus yn eu gallu darllen na disgyblion yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, ac o gymharu â'r cyfartaledd yng ngwledydd yr OECD. Fodd bynnag, roedd disgyblion yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn llai tebygol o ddarllen llyfrau na disgyblion yn Lloegr ac yn yr OECD. Roedd gan ddisgyblion yn Lloegr, Cymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban agweddau mwy negyddol tuag at ddarllen na disgyblion ar draws yr OECD.



Yn rhyngwladol, roedd disgyblion a safodd brawf PISA 2018 wedi nodi tair prif agwedd ar eu bywyd sy'n dylanwadu ar sut maent yn teimlo: pa mor fodlon maen nhw â'u golwg, eu perthynas â'u rhieni a'u bywyd yn yr ysgol. (OECD 2019)

BODLONRWYDD BYWYD



Gofynnwyd i ddisgyblion sgorio pa mor fodlon oedden nhw â'u bywyd yn gyffredinol, i ba raddau y mae ystyr neu bwrpas i'w bywydau, eu lles yn oddrychol a'u profiadau o fwlio.

Roedd disgyblion ym mhob un o wledydd y DU yn llai bodlon â'u bywydau na chyfartaledd yr OECD.



ADNODDAU'R YSGOL

Adroddodd prifathrawon a phenaethiaid ym mhedair gwlad y DU am wahanol broblemau adnoddau.




A yw gallu'ch ysgol i ddarparu addysgu'n cael ei rwystro gan unrhyw rai o'r materion canlynol?



STAFFFIO

Dywedodd bron i hanner y penaeithiaid yn yr Alban bod addysgu'n cael ei rwystro gan brinder staff addysgu, o gymharu ag ychydig dros chwarter yng ngweddill y DU.

Yn Lloegr, dywedodd llai nag 20% o benaeithiaid fod diffyg staff cymorth yn rhwystr, o gymharu â 24% yng Ngogledd Iwerddon, 47% yn yr Alban a 33% yng Nghymru.



ADNODDAU

Adroddodd penaeithiaid yng Nghymru am fwy o brinder deunyddiau addysgol neu eu bod yn annigonol (e.e. gwrslyfrau, offer TG ac ati) na phenaethiaid yng ngweddill y DU.

Cafwyd mwy o adroddiadau am seilwaith ffisegol annigonol gan benaeithiaid yng Ngogledd Iwerddon na phenaethiaid yng ngweddill y DU.



Brwdfrydedd athrawon a gallu athrawon i ysgogi diddordeb mewn darllen oedd yr arferion addysgu a oedd yn gysylltiedig yn bennaf (ac yn fwyaf cadarnhaol) â faint roedd disgyblion yn mwynhau darllen. (OECD 2019)

gwnaeth tua **600,000** disgybl o

79

gwlad dros y byd gymryd rhan yn PISA 2018

Lloegr

170 o ysgolion a 5,174 o ddisgyblion

Gogledd Iwerddon

75 o ysgolion a 2,360 o ddisgyblion

Cymru

107 o ysgolion a 3,165 o ddisgyblion

Yr Alban

107 o ysgolion a 2,969 o ddisgyblion



Roedd gan ddisgyblion yn Lloegr, Cymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban ddisgwyliadau is am eu lefel cymhwyster uchaf na disgyblion ar draws y'r OECD

Ar draws y DU, fe wnaeth cyfanswm o **13,668** disgybl

o **459** ysgol

gymryd rhan o **4** gwlad y DU.

Defnyddiodd holl wledydd y DU asesiadau disgyblion i lywio dysgu'r disgyblion, i addasu addysgu yn ôl anghenion disgyblion ac i hysbysu rhieni am eu plentyn.

Roedd ysgolion yn yr Alban yn llai tebygol o ddefnyddio asesiadau disgyblion i farnu effeithiolrwydd athrawon na gweddill y DU.



Yn yr un modd â chylchoedd blaenorol PISA, roedd y gwledydd uchaf eu perfformiad, ym mhob pwnc, yn Nwyrain Asia.

Roedd penaethiaid yn Lloegr yn fwy tebygol na'r rhai yng ngweddill y DU i ddweud bod ganddynt ddigon o ddyfeisiau digidol wedi'u cysylltu â'r rhyngwrwd. Roedd penaethiaid yn yr Alban a Chymru yn fwy tebygol o ddweud bod eu cyflymder neu led band yn annigonol nag athrawon a phenaethiaid yn Lloegr a Gogledd Iwerddon.



Penaethiaid yng Ngogledd Iwerddon oedd y lleiaf tebygol o ddweud bod triwantiaeth yn broblem, a phenaethiaid yn yr Alban oedd yn fwyaf tebygol o ddweud ei fod yn broblem.

Cyd-destun y system addysg ar draws y DU



Strwythurau ysgolion



Y cwricwlwm ac asesu

Gogledd Iwerddon



Dim academiâu nac ysgolion rhydd. Mae dewis academaidd yn nodwedd arwyddocaol o'r sector ysgolion gramadeg, sy'n cynnwys 34% o ysgolion ôl-gynradd. Trefnir ysgolion yn ôl cefndir cymunedol yn bennaf.



Mae Cwricwlwm Gogledd Iwerddon yn cynnwys pedair thema, gyda Chyfnodau Allweddol, wedi esblygu o Ddeddfau 1988/1999, gyda'r ysgol yn cael penderfynu'n annibynnol ar sut i'w cyflawni. Angen asesiadau athrawon ar ddiwedd pob Cyfnod Allweddol, ac un set o brofion gorfodol mewn TGAU, gyda sawl corff dyfarnu.

Cymru



Ysgolion cyfun mewn cymunedau, dim academiâu, ysgolion rhydd na dethol. Mae pedwar consortiwm rhanbarthol o awdurdodau lleol sydd â gorchwyl i wella ysgolion.



Cwricwlwm Cenedlaethol â Chyfnodau Allweddol ac arholiadau, wedi esblygu o Ddeddf 1988. Cyfnod Sylfaen a thri Chyfnod Allweddol. Mae Cwricwlwm newydd i Gymru wrthi'n cael ei ddatblygu. Naw set o brofion gorfodol (wyth Prawf Darllen a Rhifedd Cenedlaethol yn ogystal â TGAU, gyda sawl corff dyfarnu).

Yr Alban



Ysgolion cyfun mewn cymunedau, dim academiâu, ysgolion rhydd na dethol.



System sylweddol wahanol i'r tair gwlad arall, nid yw Deddf Diwygio Addysg 1988 yn berthnasol iddi. Rhoddwyd Cwricwlwm er Rhagoriaeth ar waith yn 2010. Cyflwynwyd pedair set o Aseidiadau Safonol Cenedlaethol yr Alban yn 2017/18. Nid oes TGAU na Safon Uwch, ond Cymwysterau Cenedlaethol gydag un corff dyfarnu.

Lloegr



Pwyslais ar ddewis rhieni ac amrywiaeth o ran ysgolion. Academiâu (gan gynnwys ysgolion rhydd) yn cynrychioli 32% o ysgolion cynradd a 75% o ysgolion uwchradd. Dethol cyfyngedig yn ôl gallu.



Cwricwlwm Cenedlaethol a Chyfnodau Allweddol wedi esblygu o Ddeddf Diwygio Addysg 1988. Pedair set o brofion gorfodol (gwiriadau ffoneg a thablau llusoi, dwy set o brofion cwricwlwm cenedlaethol) a TGAU gyda sawl corff dyfarnu. Mae'r system atebolrwydd yn canolbwyntio ar bynciau academaidd.

